Chwaraeon Potes

Aeth tîm o'r ysgol i gystadlu yn chwaraeon potes yr Urdd a gynhaliwyd yn Llanrhystud ar Fehefin 2. Cafwyd noson hwyliog a difyr yn taclo'r gwahanol gemau oedd yn gofyn am amrywiol sgiliau. Mwynhaodd y plant eu hunain - braf yw cael cyfle bob blwyddyn i fwynhau y noson hon.

Diolch

Ein diolch diffuant i Mrs Mary Jones a Mrs Eirlys James (dwy riant) am drefnu parti dillad yn ddiweddar a throsglwyddo elw'r noson i'r ysgol ar gyfer prynu dillad chwaraeon newydd. Byddant hefyd yn cynnal beicio noddedig ganol Mehefin a disgo yn yr hwyr i sicrhau cyllid ychwanegol i'r gronfa.

Ffair Haf

Cynhaliwyd y Ffair Haf flynyddol ar nos Wener, Mehefin 5ed. Y Dr. David Jenkins oedd y gŵr gwadd eleni a mawr ein diolch iddo am ei eiriau doeth a charedig a'i haelioni. Roedd y rhieni wedi bod wrthi'n brysur yn paratoi'r gwahanol stondinau a buan y gwacawyd hwynt. Mawr yw ein diolch i swyddogion ac aelodau'r Gymdeithas Athrawon a Rhieni am eu gwaith yn trefnu'r cyfan, i'r rhieni am eu cymorth parod ac i nifer helaeth o'r pentrefwyr a chyfeillion am ein cefnogi eleni eto.